Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Ystafelloedd Ymgynghori Spire Abergele
## Dyddiad yr arolygiad: 18 Ebrill 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 19 Gorffennaf 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



ISBN Digidol 978-1-83504-398-1
© Hawlfraint y Goron 2023

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda iawn gyda'r cleifion yn mynegi boddhad â'r gofal a'r driniaeth a gafwyd.

Roedd gofal yn cael ei roi mewn ffordd ddiogel ac effeithiol ac roedd y staff yn ymdrechu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl.

Roedd yr amgylchedd cyfan mewn cyflwr da ac wedi'i ddodrefnu a'i addurno i safon uchel.

Roedd y clinig yn cael ei reoli'n dda, a gwnaeth y staff sylwadau cadarnhaol am yr amgylchedd gwaith ac am y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli yn gyffredinol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ystafelloedd Ymgynghori Spire Abergele ar 18 Ebrill 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac un Adolygydd Cymheiriaid Clinigol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.



# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod gan Ystafelloedd Ymgynghori Spire drefniadau ar waith i hybu diogelwch a llesiant y cleifion sy'n ymweld â'r clinig.

Rhoddodd y cleifion sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

Gwelsom fod y staff yn y clinig yn trin y cleifion yn gwrtais ac â pharch. Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd trefniadau ar waith hefyd i gleifion fynegi eu barn am y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau y caiff cleifion gynnig hebryngwr, hyd yn oed pan mae perthynas neu ffrind yn bresennol ac y gwneir cofnod o'r cynnig ac o ymateb y cleifion
- Ehangu'r dewis o wybodaeth sydd ar gael, gan roi sylw i anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Ansawdd yr amgylchedd
- Gwybodaeth i gleifion a chyfathrebu
- Cynnal preifatrwydd ac urddas

**Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:**

***"Staff cyfeillgar iawn ac yn barod i helpu."***

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Nodwyd gennym fod y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau i hybu diogelwch a llesiant cleifion, ymwelwyr a'r staff.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio.

Roedd trefniadau da ar waith i reoli meddyginiaethau, ynghyd â phrosesau effeithiol ar gyfer gwirio'r cyfarpar a ddefnyddir.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod y nodiadau clinigol wedi'u hysgrifennu â llaw a'r llofnodion yn ddarllenadwy.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr
- Hyfforddi staff
- Cadw cofnodion

**Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:**

*"Mae'r staff yn broffesiynol ac yn rhoi sylw i anghenion y claf."*

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn y clinig, gyda'r staff yn canmol y cymorth y maent yn ei gael gan y rheolwr.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu cael gafael ar yr hyfforddiant a'r cyfarwyddyd roedd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser
- Sicrhau bod y staff yn cael gwybod am newidiadau a gaiff eu cyflwyno
- Ystyried ffyrdd mwy effeithiol o gyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a'r staff
- Sicrhau y caiff camau eu cymryd ar unwaith i wella'r gwasanaeth pan fo angen gwneud hynny.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Trosolwg gan y rheolwyr
- Archwilio ac adrodd
- Cefnogaeth a goruchwyliaeth i'r staff.

Gwnaeth aelodau o'r staff y sylwadau canlynol:

> ***"Mae rheolwr y clinig yn wych am fy nghefnogi, ac yn gwneud i mi deimlo fel fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi a fy nghlywed hefyd."***
>
> ***"Gwaith tîm a chyfathrebu da."***

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

